# Arweinydd Dysgu Creadigol

# - Manyleb y Person

## Pwrpas

Bydd y gweithgaredd yma'n eich helpu chi i ystyried nodweddion arweinydd creadigol er mwyn cydnabod eich hyder a'ch gallu eich hun, a deall pa feysydd y gallai fod angen i chi eu datblygu. Bydd yn eich cynorthwyo chi hefyd i gydnabod pwy arall yn eich ysgol a allai feddu ar y nodweddion hyn, neu sut y gallwch ddatblygu darpar-arweinwyr creadigol. Gellir cyflawni hyn fesul un neu fel tîm gyda chydweithwyr.

## Adnoddau a Pharatoi

Arferion Meddwl Creadigol

Arweinydd ar gyfer Meddwl Creadigol – Manyleb y Person

Peniau coch, melyn a gwyrdd

**Hyd**

45 munud

## Cychwyn arni

Os nad ydych chi'n gyfarwydd â'r Arferion Meddwl Creadigol eto, cymerwch ychydig funudau i ystyried y model cyn cychwyn y gweithgaredd hwn. Dilynwch y linc ar waelod y dudalen hon.

**Gall y gweithgaredd hwn hefyd ddatblygu eich arfer creadigol o fod ...**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
|  |  |  |  |  |

## Cam 1 - (3 munud)

Syniad craidd Arwain Meddwl Creadigol yw bod yna ddeg gweithred allweddol y mae arweinwyr creadigol yn eu cyflawni, sef:

**Y Broses Newid**
Y gallu i roi disgrifiad clir o'r broses newid, fel bod pawb yn deall sut y caiff creadigrwydd pobl ifanc ei ddatblygu.

**Datblygu Arweinwyr**
Clustnodi catalyddion newid creadigol/arweinwyr athrawon a'u meithrin.

**Newid y Diwylliant**
Creu diwylliant lle mae creadigrwydd yn cael ei hybu a'i werthfawrogi ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol, a'i adlewyrchu yng nghynllun gwella'r ysgol.

**Ailfeddwl Strwythurau**
Ymgorffori meddwl creadigol i'r holl adnoddau.

**Datblygu Cwricwlwm Creadigol**
Sefydlu creadigrwydd mewn cwricwlwm cydlynol.

**Ailfeddwl Addysgeg**
Datblygu hyder staff wrth ddefnyddio dulliau o addysgu a dysgu sy'n meithrin creadigrwydd.

**Olrhain Cynnydd Creadigrwydd**
Dod o hyd i ddulliau o asesu sy'n cydnabod cynnydd yn natblygiad creadigrwydd pobl ifanc.

**Sicrhau Dysgu Proffesiynol**
Gwneud creadigrwydd yn ffocws ar gyfer dysgu proffesiynol i'r staff.

**Cydweithio â Phartneriaid Allanol**
Buddsoddi mewn partneriaid allanol a chyllid i helpu i ddatblygu creadigrwydd.

**Myfyrio a Gwerthuso**
Archwilio, myfyrio a gwerthuso siwrnai eich ysgol tua chreadigrwydd.

## Cam 2 - (17 munud)

Pan fydd gennych afael da ar yr Arferion Meddwl Creadigol a'r deg cam y mae arweinwyr creadigol yn eu dilyn, agorwch yr adnodd Arweinydd Creadigol - Manyleb y Person.

Dychmygwch hysbyseb swydd ar gyfer arweinydd creadigol lle mae'r cymwysterau'n galw am Arferion Meddwl Creadigol cadarn, ac mae'r rôl yn cynnwys cyflawni'r deg cam sydd yng ngham 1. Pa sgiliau a nodweddion gallai fod eu hangen ar gyfer y swydd? O'r rhain, beth fyddai'n hanfodol a beth fyddai'n

ddymunol?

Er enghraifft, gallai parodrwydd i fod yn ddewr fod yn hanfodol, ond gallai hyder yn eich creadigrwydd eich hun fod yn ddymunol.

Ar yr adnodd, defnyddiwch y seren allanol i glustnodi hyd at ddeg o nodweddion hanfodol a dymunol.

**Cam 3 - (10 munud)**

Defnyddiwch gwahanol liwiau i ddangos, o'r nodweddion hanfodol a dymunol:

Pen gwyrdd – y rhai rydych chi'n credu sydd gennych chi'n barod

Pen melyn – y rhai rydych chi'n credu sydd gennych chi i ryw raddau

Pen coch – y rhai sydd ddim gennych chi

Nawr byddai'n ddefnyddiol i chi ofyn i gydweithiwr edrych ar eich asesiad a chynnig safbwynt gwrthrychol.

# Myfyrdod

- Sut mae'r gweithgaredd yma wedi gwneud i chi deimlo am eich gallu neu'ch potensial i arwain ar gyfer meddwl creadigol?
- Yn gyffredinol, beth sy'n wahanol rhwng y nodweddion a nodwyd a'r rhai a allai fod yn gyson â rôl arweinydd?
- Gan feddwl am y nodweddion arweinyddiaeth greadigol a nodwyd yn felyn neu'n goch, sut gallwch chi i ddatblygu'r nodweddion hyn, neu pwy y gallech eu cynnwys sydd eisoes yn meddu ar y nodweddion hyn?
- Fel arweinydd, sut ydych chi, neu sut gallwch chi feithrin y nodweddion hyn yn eich staff?
- Cymharwch eich nodweddion hanfodol a dymunol chi â rhai rhywun arall o'r gymuned Arwain Meddwl Creadigol, sut maen nhw'n cymharu â'i gilydd? Beth sy'n debyg, a beth sy'n wahanol?